



### Telerau ac Amodau'r Gystadleuaeth Eat Drink Bangor 'Dilynwch Ni'

1. Mae'r gystadleuaeth yn agored i drigolion y Deyrnas Unedig sy'n 18 oed neu'n h n ac eithrio gweithwyr Cegin, Ffynnon, Copa, Lolfa Teras, Caffi Teras, Barlows a Bar Uno
2. Does dim ffi gystadlu ac does dim angen prynu dim byd i gystadlu.
3. O gystadlu, mae pob ymgeisydd yn cytuno i ymrwymo i'r telerau a'r amodau hyn.
4. I gystadlu, rhaid i chi hoffi/dilyn @eatdrinkbangor ar ein llwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol (Facebook, Instagram a Twitter) a thrwy hoffi/dilyn y tri rydych chi'n cynyddu'r siawns o ennill
5. Bydd y gystadleuaeth yn rhedeg o **01/02/2020 tan 30/04/2020**
6. Byddwn yn dewis un enillydd ar hap bob mis
7. Cyhoeddir/hysbysir yr enillwyr ar y dyddiadau canlynol: **28/02/2020, 31/03/2020 a 30/04/2020**
8. Y dyddiad mynediad olaf fydd **29/04/2020** (bydd hyn ar gyfer tynnu fis Ebrill). Ni chaniateir dim cynigion eraill i'r gystadleuaeth ar ôl y dyddiad hwnnw.
9. Ni dderbynnir cyfrifoldeb am unrhyw geisiadau sydd heb eu derbyn am unrhyw reswm.
10. Mae rheolau'r gystadleuaeth a sut i gystadlu fel a ganlyn:  
**Hoffwch/dilynwch @eatdrinkbangor ar y cyfryngau cymdeithasol (Facebook, Twitter ac Instagram) i gael eich cynnwys mewn raffl ar hap bob mis a siawns o ennill taleb £25 ar gyfer un o'n hallfeydd. Cynyddwch eich siawns trwy hoffi pob un o'r tri ar y cyfryngau cymdeithasol**
11. Bydd dilynwyr/hoffterau newydd a chyfredol ar ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn cael eu cynnwys yn y gystadleuaeth.
12. Rhaid i bob ymgeisydd fod yn dilyn @eatdrinkbangor ar y cyfryngau cymdeithasol (Facebook, Twitter a/neu Instagram) ar adeg eu dewis ar hap er mwyn cael eu cyfrif.
13. Mae'r hyrwyddwr yn cadw'r hawl i ganslo neu newid y gystadleuaeth ar unrhyw adeg. Rhoddir gwybod i'r ymgeiswyr am unrhyw newidiadau i'r gystadleuaeth cyn gynted ag y bo modd gan yr hyrwyddwr.
14. Dyma'r wobwr:
  - 14.a Un daleb £25 i'r enillydd i un o'n hallfeydd (Cegin, Copa, Ffynnon, Lolfa Teras, Caffi Teras, Barlows neu Bar Uno)
  - 14.b Caiff yr Enillydd ddewis pa un o'r allfeydd uchod sydd orau ganddynt
  - 14.c Mae'r wobwr fel y nodir ac ni chynigir arian parod na dewisiadau eraill.
  - 14.d Nid yw'r gwobrau'n drosglwyddadwy.
  - 14.e Mae'r gwobrau yn amodol ar fod ar gael ac rydym yn cadw'r hawl i gyfnewid unrhyw wobwr gydag un arall o werth cyfatebol heb roi rhybudd.
  - 14.f Ni ellir ad-dalu talebau ac ni ellir eu cyfnewid am arian
15. Yr enillydd:
  - 15.a Caiff yr enillydd ei hysbysu drwy Neges Uniongyrchol ar Twitter/Facebook/Instagram. Os na ellir cysylltu â'r enillydd neu os nad yw'n hawlio'r wobwr o fewn 14 diwrnod ar ôl ei cael hysbysu, rydym yn cadw'r hawl i dynnu'r wobwr oddi ar yr enillydd a dewis enillydd arall.
  - 15.b Bydd yr hyrwyddwr yn hysbysu'r enillydd pryd a ble y caiff gasglu'r wobwr.
16. Bydd penderfyniad yr hyrwyddwr ynghylch yr holl faterion sy'n ymwneud â'r gystadleuaeth yn derfynol ac ni chynhelir dim gohebiaeth ynghylch hynny.
17. Trwy gystadlu, mae pob ymgeisydd yn cytuno i ymrwymo i'r telerau a'r amodau yma.
18. Mae'r enillydd yn cytuno i'w enw/henw a'i lun/llun gael eu defnyddio mewn unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd, ynghyd â'u cynnig. Caiff unrhyw ddata personol am yr enillydd neu unrhyw ymgeiswyr eraill eu defnyddio'n unol â deddfwriaeth diogelu data cyfredol [y Deyrnas Unedig] ac ni chaiff ei ddatgelu i drydydd parti heb gydsyniad blaenorol y cystadleuydd.

19. Os yw rhywun yn cystadlu ystyrir ei fod ef/ei bod hi yn derbyn yr amodau a'r telerau yma.
20. Nid yw'r ymgyrch hyrwyddo hon yn cael ei noddi, na'i chymeradwyo na'i gweinyddu mewn unrhyw ffordd nac yn gysylltiedig â Facebook, Twitter, Instagram nac unrhyw rwydwaith cymdeithasol arall. Rydych yn rhoi eich gwybodaeth i Bwyta Yfed Bangor - Prifysgol Bangor ac nid i unrhyw barti arall. Caiff yr wybodaeth a darperir ei defnyddio ar y cyd â'r Polisi Preifatrwydd canlynol:  
[<https://www.bangor.ac.uk/courses/data.php.cy>]
21. Bydd gan Bwyta Yfed Bangor yr hawl, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr ac ar unrhyw adeg, i newid neu i addasu'r telerau a'r amodau yma, a bydd y newid hwnnw yn effeithiol ar unwaith o'i bostio ar y dudalen we hon.
22. Mae Bwyta Yfed Bangor hefyd yn cadw'r hawl i ganslo'r gystadleuaeth os bydd amgylchiadau'n codi sydd y tu hwnt i'w rheolaeth.